

Fframwaith

hawliau dynol ar

gyfer ataliaeth:

egwyddorion defnyddio
ymyriadau ataliol corfforol,
cemegol, mecanyddol a
chymhellol yn gyfreithlon



Cyflwyniad

Mae'r fframwaith hwn yn adlewyrchu gofynion Erthygl 3 (gwahardd artaith, triniaeth annynol a diraddiol), Erthygl 8 (parchu annibyniaeth, uniondeb corfforol a seicolegol) ac Erthygl 14 (peidio â gwahaniaethu) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol¹ fel yr ymgorfforwyd mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.²

Pam mae'r Comisiwn wedi llunio'r fframwaith hawliau dynol hwn ar gyfer ataliaeth?

Rydym wedi llunio'r fframwaith hawliau dynol hwn ar gyfer ataliaeth er mwyn cefnogi ein gwaith o fynd i'r afael â defnydd anghyfreithlon o ataliaeth mewn lleoliadau addysg, gofal iechyd a chanolfannau cadw. Mae'r broses o ddatblygu'r fframwaith hwn wedi cael ei hysbysu gan drafodaethau ag adrannau'r Llywodraeth; rheoleiddwyr, arolygiaethau ac ombwdsmyr; a'r trydydd sector.

Beth yw diben y fframwaith hwn?

Mae'r fframwaith hwn:

- yn nodi prif egwyddorion erthyglau 3, 8 ac 14 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD), sydd wedi'u hymgorffori mewn Deddf Hawliau Dynol 1998, sy'n llywodraethu'r defnydd o ataliaeth ym mhob lleoliad, ac
- yn rhoi enghreifftiau o ystod o leoliadau er mwyn egluro'r egwyddorion.

Beth nad oes bwriad i'r fframwaith hwn ei wneud?

Ni fwriedir i'r fframwaith hwn:

- nodi'r fframweithiau cyfreithiol penodol sy'n llywodraethu'r defnydd o ataliaeth mewn lleoliadau amrywiol

- nodi'r holl rwymedigaethau a safonau rhanbarthol a rhyngwladol sy'n ymwneud â defnyddio ataliaeth, neu
- weithredu fel modd o arwain arferion rheng flaen heb ganllawiau atodol.

Sut dylid defnyddio'r fframwaith?

Bwriedir i'r fframwaith hwn gael ei ddefnyddio fel:

- sylfaen ar gyfer adeiladu cydsyniad a chysondeb o ran defnyddio ataliaeth o fewn a rhwng pob sector y caiff ataliaeth ei defnyddio, gan gynnwys y sectorau cyfiawnder troseddol, iechyd, gofal i oedolion a gofal cymdeithasol a'r sector addysg
- man cychwyn ar gyfer datblygu canllawiau mwy cynhwysfawr a hyfforddiant ar ataliaeth sy'n benodol i'r sector, a
- fel rhestr wirio y gellir ei defnyddio i helpu i werthuso cydymffurfiaeth â'r gyfraith, â pholisi ac arferion ynghylch ataliaeth ag erthyglau 3, 8 ac 14 y CEHD.

Fframwaith hawliau dynol ar gyfer ataliaeth

Rhaid i ddefnydd o ataliaeth gydymffurfio â'r egwyddorion cyfreithiol sylfaenol isod wrth gael ei chyflawni gan berson sy'n cynnal swyddogaeth gyhoeddus neu'n darparu gwasanaeth cyhoeddus, ni waeth a yw'n cael ei gyflogi gan y wladwriaeth neu gan gonahtwyr preifat. Mae hyn yn cynnwys ataliaeth gan athrawon, yr heddlu a swyddogion canolfannau cadw mewnfudo, gweithwyr proffesiynol y GIG a gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae egwyddorion y fframwaith hwn yn gweithredu i amddiffyn a pharchu diogelwch ac urddas y bobl sy'n cael eu hatal, yn ogystal â'r rhai o'u hamgylch, gan gynnwys staff neu aelodau o'r cyhoedd.

A | Beth yw 'ataliaeth'?

Mewn rhai lleoliadau, mae 'ataliaeth' dim ond yn golygu defnyddio grym. Mae'r fframwaith hwn yn ymdrin â phob ffurf ar ataliaeth sy'n cael ei chynnwys yn y diffiniad canlynol:

Mae 'ataliaeth' yn weithred sy'n cael ei chyflawni â'r nod o atal symudedd a/neu ryddid unigolyn i weithredu'n annibynnol.³

Mae ataliaeth yn cynnwys ffyrdd cemegol, mecanyddol a chorfforol o reoli, gorfodi ac ynysu gorfodol, y gellir eu galw'n 'ymyriadau cyfyngol' hefyd.

Enghraifft: Rhoddir dosau uchel o gyffur gwrthseicotig i berson ifanc ag anableddau dysgu sy'n cynnwys priodoleddau tawelu i helpu i reoli ei ymddygiad heriol yn unig. Nid oes ganddo'r cyflwr gwaelodol y bwriadwyd y feddyginiaeth ar ei gyfer. Gallai hyn fod yn ataliaeth gemegol. Nid oes ganddo'r cyflwr gwaelodol y bwriadwyd y feddyginiaeth ar ei gyfer. Gallai hyn fod yn ataliaeth gemegol.

Y prif fater yw natur y weithred, nid sut y caiff ei disgrifio. Os mai bwriad gweithred neu gyfres o weithredoedd yw atal rhyddid person i symud neu weithredu, yna mae'r egwyddorion hawliau dynol a nodir yn y fframwaith hwn yn weithredol.

Enghraifft: Gallai arwahanu gael ei orfodi drwy gloi drws neu ddefnyddio drws na all y person ei agor ei hun, neu'n ei atal rhag gadael yr ardal fel arall, er enghraifft, drwy ddefnyddio neu fygwth grym. Mae arwahanu gorfodol, felly, yn ataliaeth, ond gellir ei ddisgrifio yn neilltuaeth, gwahanu, amser ar ben ei hun neu garchariad unigol.

Nid yw ataliaeth yn gorfod bod yn ddefnydd o rym corfforol, dydy hi ddim yn golygu bod angen i'r person sy'n cael ei atal wrthod ychwaith. Gallai gynnwys gweithredoedd anuniongyrchol o ymyrraeth.

Enghraifft: Mae gofalwr yn cymryd ffrâm gerdded person anabl oddi wrtho fel na all symud o'i gadair a cherdded o gwmpas. Dyma weithred o ataliaeth.

B | Ataliaeth anghyfreithlon

Dydy hi **byth** yn gyfreithlon defnyddio:⁴

1. ataliaeth gyda'r bwriad o arteithio, bychanu, achosi trallod neu ddiraddio rhywun⁵
2. dull annynol neu ddiraddiol yn ei hanfod o atal rhywun, neu sy'n gyfystyr ag artaith
3. grym corfforol fel modd o gosbi, neu
4. ataliaeth sy'n bychanu person yn ddiangen neu sy'n gwneud y person yn destun cam-drin difrifol neu gyflyrau sy'n annynol neu'n ddiraddiol.

Enghraifft: Mae gefynnu carcharor i wely'r ysbyty, neu'n ystod archwiliad meddygol, yn bychanu ac yn effeithio ar ei urddas. Gallai fod yn anghyfreithlon os nad yw'r carcharor yn peri risg o niwed i'r cyhoedd neu risg o ddianc i'r graddau y mae ei efynnu'n angenrheidiol.

Mae ataliaeth yn fwy tebygol o fod yn gyfystyr â thriniaeth annynol a diraddiol pan gaiff ei defnyddio ar grwpiau sydd mewn perygl penodol o niwed neu gamdriniaeth, megis carcharorion, plant a phobl anabl.⁶

Ni ellir cyfiawnhau ataliaeth sy'n gyfystyr â thriniaeth annynol neu ddiraddiol erioed.

Yn amodol ar y gwaharddiadau absoliwt yn yr adran hon, gallai defnyddio ataliaeth fod yn gyfreithlon cyhyd â bod y fframwaith cyfreithiol, y camau amddiffyn a'i defnydd ymarferol yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir isod.⁷

C | Fframwaith cyfreithiol

Rhaid cael fframwaith cyfreithiol i lywodraethu'r defnydd o ataliaeth sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion canlynol:

1. Rhaid i'r fframwaith cyfreithiol gynnwys pŵer cyfreithiol sy'n awdurdodi'r defnydd o ataliaeth:⁸
 - a) yn amgylchiadau'r unigolyn, ac
 - b) er pwrpas bwriededig yr ataliaeth.

Gellir cynnwys y pŵer cyfreithiol i atal mewn deddfwriaeth gynradd neu eilaidd, neu'n deillio o gyfraith gyffredin.

Enghreifftiau: Mae Adran 6 Deddf Galluedd Meddwl 2005 yn rhoi awdurdod cyfreithiol i ddefnyddio ataliaeth (a) ar berson sydd â diffyg galluedd os (b) credir yn rhesymol ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur i'w diogelu rhag niwed.

2. Rhaid i bwrpas y pŵer cyfreithiol i atal a roddir gan y fframwaith cyfreithiol fod at ddibenion cyfiawn sydd wedi'u pwysoli'n ddigonol ac sydd wedi'u cynnwys dan y seiliau canlynol:
 - a) er lles diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad
 - b) er mwyn atal anrhefn neu drosedd
 - c) er mwyn amddiffyn iechyd neu foesau, neu
 - d) er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddid eraill.⁹
3. Rhaid i'r fframwaith cyfreithiol:
 - a) fod yn gyhoeddus ac ar gael yn eang
 - b) diffinio'n glir yr amgylchiadau y gellir defnyddio ataliaeth a sut y gellir ei harfer, ac
 - c) yn rhoi camau diogelu gweithdrefnol, gan gynnwys cosbau am ddefnyddio ataliaeth mewn modd anghyfreithlon.¹⁰

4. Rhaid i reolau a chamau diogelu yn y fframwaith cyfreithiol fod yn ddigonol i warantu yn erbyn y risg o gam-drin, ymyrraeth fympwyol â hawliau unigolyn,¹¹ ac atal risgiau i iechyd a llesiant.¹²
5. Dylai'r fframwaith cyfreithiol gydymffurfio cymaint â phosibl â rhwymedigaethau'r DU dan gyfraith ryngwladol a chael ei lywio gan safonau hawliau dynol rhyngwladol, megis y rhai a restrwyd yn yr Atodiad i'r fframwaith hwn.¹³
6. Gallai'r fframwaith cyfreithiol gynnwys darpariaethau statudol perthnasol, codau ymarfer, canllawiau swyddogol, polisïau a deddfwriaeth hawliau dynol a chydraddoldeb.¹⁴

Enghraifft: Mae canllawiau statudol 'Deddf Iechyd Meddwl 1983: Cod Ymarfer' a chanllawiau polisi'r Adran Iechyd, 'Gofal Cadarnhaol a Rhagweithiol; lleihau'r angen am ymyriadau ataliol' yn llunio rhan o'r fframwaith cyfreithiol o ran ataliaeth mewn ysbytai seiciatrig.

D | Defnyddio ataliaeth

Pan nad yw ataliaeth yn cyfateb â thriniaeth annynol a diraddiol, gallai fod yn gyfreithlon os caiff ei defnyddio yn unol â'r fframwaith cyfreithiol, gan sicrhau'r canlynol:¹⁵

1. bod bwriad yr ataliaeth yn bodloni pwrpas y pŵer yn y fframwaith cyfreithiol, a
2. bod cysylltiad rhesymegol rhwng y dull o atal a ddefnyddir a'r bwriad.¹⁶

Rhaid cydymffurfio â'r egwyddorion canlynol hefyd:

1. rhaid i'r dull a ddefnyddir i atal a hyd yr ataliaeth fod yn angenrheidiol, ac nid yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol, i gyflawni'r bwriad. Er mwyn gwneud hyn, mae angen ystyried a oes dull llai ymwithiol y gallai gyflawni'r bwriad yn rhesymol, a
2. rhaid bod modd cyfiawnhau'r dull o gyrraedd y nod. Rhaid sicrhau cydbwysedd teg rhwng difrifoldeb a goblygiadau'r ymyrraeth ar gyfer yr unigolyn sy'n cael ei atal a bwriad yr ataliaeth.¹⁷ Er mwyn gwneud hyn mae angen ystyried unrhyw resymau pam y gallai unigolyn fod mewn perygl penodol o niwed, megis ei oedran, profiad o drawma, cyflyrau iechyd neu anabledau.

3. Mae'n bosibl nad yw mân achosion o ymyrraeth gorfforol, megis arwain â llaw, yn mynd yn groes i hawliau, ond gellir defnyddio grym corfforol mwy sylweddol fel modd o atal dim ond:
 - a) fel yr ateb olaf, lle nad oes dull posibl arall¹⁸
 - b) os credir yn wirioneddol¹⁹ ei bod hi'n bendant yn angenrheidiol i atal niwed difrifol gan gynnwys perygl o niwed i'r person neu i eraill, neu mewn achosion cyfyngedig, er mwyn atal trosedd, anrhefn neu ddifrod i eiddo, ²⁰ac
 - c) oherwydd lefel y rheolaeth y mae gan y wladwriaeth ar bobl sydd wedi'u carcharu ac felly ar ba mor agored ydynt i gael eu cam-drin, ceir defnyddio grym i atal carcharor dim ond os ydyw wedi'i gwneud hi'n gwbl angenrheidiol yn sgil ei ymddygiad.²¹

Mae'r egwyddorion 'defnyddio grym' uchod yn debygol o fod yn berthnasol i ffurfiau eraill ar ataliaeth, megis ataliaeth gemegol, sydd â risg uchel tebyg o niwed ac ymyrraeth ag urddas dynol.

Plant

Wrth benderfynu p'un a ddylid atal plentyn, a sut:

1. Rhaid i'r ystyriaeth bennaf fod eu buddion gorau. Nid yw hyn yn golygu bod buddion gorau'r plentyn yn blaenoriaethu ystyriaethau eraill yn awtomatig, megis hawliau pobl, ond rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt wrth benderfynu atal.²²
2. Mae plant yn datblygu'n gorfforol ac yn seicolegol sy'n eu gwneud yn benodol o agored i niwed. Bydd angen cyfiawnhad sylweddol ar yr effaith ddifrifol bosibl y bydd ataliaeth yn ei chael arnynt.²³
3. Ni cheir defnyddio technegau â'r bwriad o achosi poen fel ffordd o reoli.²⁴

Mae'n bosibl y bydd angen i berson â chyfrifoldeb dros ofalu am blentyn ifanc atal gweithred y plentyn i sicrhau ei lesiant a'i ddiogelwch. Os yw'r dull o atal yn gyson â dulliau rianta derbyniol arferol o ran symudedd plentyn o'r fath oedran a dealltwriaeth, bydd yn gyffredinol yn gyfreithlon.

Enghraifft: Mae cynorthwy-ydd addysgu yn dal gafael mewn llaw disgybl pum mlwydd oed i rwystro'r plentyn pan fydd yn cerdded ger ffordd brysur. Mae hwn yn gyfreithlon.

E | Diogelwch gweithdrefnol

Pan ddefnyddir ataliaeth, rhaid cymryd camau amddiffynnol i sicrhau ei bod yn gyfreithlon ac yn atal niwed.²⁵ Bydd lefel y manylion a'r craffu sydd eu hangen ar y diogelwch gweithdrefnol hwn yn cynyddu yn ôl difrifoldeb yr ymyrraeth â hawliau'r unigolyn a'r perygl o niwed.

Mae'r canlynol yn ddiogelwch gweithdrefnol allweddol:

1. Rhaid i bawb sy'n defnyddio ataliaeth fod wedi'u hyfforddi'n ddigonol.
2. Rhaid cynllunio ac adolygu'n rheolaidd unrhyw ddefnydd o ataliaeth a ragwelir. Rhaid i hyn gynnwys ystyriaeth weithredol o:
 - addasiadau rhesymol, neu fesurau eraill y gellir eu cymryd, i osgoi neu leihau'r defnydd o ataliaeth cymaint â phosibl a'r perygl o niwed yn sgil hynny i'r unigolyn neu eraill yn ei sefyllfa,²⁶ a'r
 - risgiau i lesiant corfforol a meddyliol y person, gan ystyried materion megis anabledd ac oedran.²⁷
3. I'r graddau y mae argyfwng yn eu caniatáu, rhaid ymgynghori â'r unigolyn a'i gynnwys yn y penderfyniad i'w atal, neu i barhau i'w atal am gyfnod estynedig.²⁸
4. Dylai'r defnydd o ataliaeth gael ei gofnodi mewn manylder cymesur er mwyn gallu asesu i ba raddau y mae'r ataliaeth yn gyfreithlon.²⁹

Enghraifft: Caiff disgybl mewn ysgol breswyl arbennig a chanddo awtistiaeth ac anableddau dysgu ei atal yn gorfforol droeon yn sgil ymddygiadau heriol. Mae angen gwneud asesiad arbenigol o'i anghenion synhwyraidd er mwyn gallu addasu ei amgylchedd i osgoi gofid a allai arwain at ddefnyddio ataliaeth, ac i sicrhau ei fod yn gwbl angenrheidiol.

Yn ogystal, os bydd ataliaeth yn arwain at farwolaeth, niwed sy'n peryglu bywyd,³⁰ neu y gellir dadlau sy'n gyfystyr ag artaith, triniaeth annynol neu ddiraddiol, mae angen cynnal archwiliad effeithiol ac annibynnol sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion cyfreithiol a amlinellir yn ein [fframwaith hawliau dynol ar gyfer oedolion yn marw mewn canolfannau cadw](#).

F | Gwahaniaethu

1. Mae defnydd anghymesur o ataliaeth ar ran nodedig o'r boblogaeth heb gyfiawnhad yn dystiolaeth y gallai ataliaeth ddiangen a gwahaniaethol fod yn digwydd.³¹

Enghraifft: Mae carchar yn gwahanu carcharorion du ddwywaith mor aml â charcharorion gwyn. Mae hyn yn awgrymu y gallai gwahanu carcharor du fod yn sgil gwahaniaethu yn hytrach na'r hyn sy'n angenrheidiol, a byddai hynny'n anghyfreithlon.

2. Er mwyn canfod a oes gwahaniaethu'n mynd rhagddo, dylai cyrff cyhoeddus gasglu a dadansoddi data ar eu defnydd o ataliaeth i nodi a yw ataliaeth yn cael ei defnyddio'n anghyfartal yn erbyn pobl â nodweddion penodol a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu sy'n rhannu nodweddion grŵp nodedig eraill, er enghraifft, menywod, lleiafrifoedd ethnig, neu bobl â namau penodol megis anabledau dysgu.³²

Enghraifft: Mae adolygiad o ddata monitro mewn uned iechyd meddwl yn dangos bod menywod o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu hatal na menywod neu ddynion gwyn. Mae'r ysbyty'n pryderu y gallai fod yn digwydd yn sgil ymddygiadau gwahaniaethol ac mae'n penderfynu ymchwilio i achos yr anghyfartaledd hwn.

G | Rhaid i hawliau fod yn effeithiol

Rhaid rhoi cymorth priodol lle bo angen i sicrhau bod yr hawliau a amlinellir yn y fframwaith hwn yn effeithiol yn ymarferol.³³ Gallai hyn gynnwys gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i bobl sydd ei angen arnynt, neu gymorth eiriolaeth annibynnol i bobl sy'n wynebu rhwystrau cyfathrebu eraill neu'n ei chael hi'n anodd arddel eu hawliau cyfreithiol, gan gynnwys y rhai â diffyg galluedd.

Atodiad

Rhwymedigaethau, safonau, systemau monitro a chwynion cyfreithiol rhyngwladol sy'n ymwneud ag ataliaeth

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth y DU wedi arwyddo a chadarnhau nifer o gytundebau hawliau dynol y CU sy'n berthnasol i'r defnydd o ataliaeth. Mae'r cytundebau hyn yn rhan o'i rhwymedigaethau dan gyfraith rhyngwladol ac yn hysbysu'r modd y caiff hawliau eu dehongli dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.³⁴

Cytundebau hawliau dynol perthnasol y CU

Mae'r DU wedi cadarnhau cytundebau hawliau dynol canlynol y CU sy'n berthnasol i ataliaeth:

[Confensiwn Rhyngwladol ar Ddileu Pob Ffurf o Wahaniaethu Hiliol](#) (CERD) yn arbennig erthyglau 1 (diffiniad gwahaniaethu hiliol), 2 (rhwymedigaeth i weithredu yn erbyn pob gwahaniaethu hiliol), 5 (cydraddoldeb gerbron y gyfraith) a 7 (rhwymedigaeth i ymladd rhagfarn a hybu dealltwriaeth).³⁵

[Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol](#) (ICCPR) yn arbennig erthyglau 3 (mwynhad cyfartal o hawliau i ddynion a menywod), 7 (gwahardd artaith, triniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol), 9 (hawl i ryddid a diogelwch person), 10 (hawl i gael eich trin yn ddynol a chyda pharch dros urddas yn y ddalfa), 16 (hawl i hunaniaeth gyfreithiol), 17 (hawl i barch dros breifatrwydd a theulu).³⁶

[Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod](#) (CEDAW) yn arbennig erthyglau 1 (diffiniad gwahaniaethu yn erbyn menywod) a 2 (rhwymedigaeth i weithredu i ddileu gwahaniaethu yn erbyn menywod).³⁷

[Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall](#) (CAT) yn arbennig erthyglau 1 (diffiniad artaith), 2, (rhwymedigaeth i atal achosion arteithio), 4 (sanctsiynau troseddol am arteithio), 10 (hyfforddiant ar gyfer personél ym maes cyfraith gorfodi a chyd-destunau cadw yn y ddalfa), 11 (adolygiad systematig o reolau cadw yn y ddalfa, etc.), 12 (rhwymedigaeth i archwilio), 13 (hawl i gwyno), 16 (cymhwyso erthyglau 10-13 i driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol).³⁸

[Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn](#) (CRC) yn arbennig erthyglau 3 (buddiannau gorau'r plentyn), 12 (hawl i gael eich clywed), 16 (hawl i breifatrwydd a theulu), 19 (diogelwch rhag trais neu gamdriniaeth gorfforol neu feddyliol), 23 (plant anabl), 28 (disgyblaeth ysgol), a 37 (diogelwch rhag triniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol).³⁹

[Confensiwn ar Hawliau Personau ag Anableddau](#) (CRPD) yn arbennig erthyglau 12 (cydnabyddiaeth cyfartal gerbron y gyfraith), 14 (rhyddid a diogelwch person), 15 (rhyddid rhag triniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol) a 17 (diogelu uniondeb y person).⁴⁰

Mae cyrff cytundebau hawliau dynol y CU yn llunio sylwadau cyffredinol ar yr hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y cytundebau.⁴¹ Gellir defnyddio sylwadau cyffredinol i helpu i ddeall yr hawliau hyn a'r hyn sydd ei angen arnynt.

Offer rhyngwladol eraill

Yn ogystal â chytundebau'r CU, mae safonau rhyngwladol y dylai ategu safonau domestig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- [Egwyddorion Sylfaenol ar Ddefnyddio Grym a Drylliau gan Swyddogion Gorfodi'r Gyfraith.](#)
- [Rheolau Safonol Lleiaf ar Drin Carcharorion \('rheolau Nelson Mandela'\).](#)
- [Rheolau'r Cenhedloedd Unedig ar Drin Carcharorion Benywaidd a Mesurau Anwarchodol ar gyfer Troseddwyr Benywaidd \('rheolau Bangkok'\).](#)

Sylwadau terfynol ac argymhellion

Mae'r DU wedi cytuno i ymgymryd ag archwiliad rheolaidd gan bwyllgorau'r CU i asesu i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r cytundebau y mae wedi'u cadarnhau. Mae'r archwiliadau hyn yn arwain at [sylwadau terfynol](#) ac argymhellion gan bwyllgor

y CU ar gyfer pob cytundeb. Hyd yn hyn, mae'r rhain yn cynnwys sylwadau terfynol gan y pwyllgorau ar gyfer CAT (2013), CERD (2016), CRC (2016) a CRPD (2017), ac roeddynt i gyd yn amlygu pryderon difrifol ynghylch y defnydd o ataliaeth.

Monitro rhwymedigaethau a dulliau o gwyno dan gyfraith ryngwladol

Fel sy'n ofynnol gan y Protocol Dewisol ar gyfer CAT (OPCAT), mae Llywodraeth y DU wedi creu [Mecanwaith Atal Cenedlaethol](#) (NPM) sydd â'r swyddogaeth o archwilio canolfannau cadw ac adrodd ar gamdriniaeth. Mae gan yr NPM wefan, sy'n cynnwys astudiaethau defnyddiol a chanllawiau ar safonau sy'n berthnasol i ffurfiau penodol ar ataliaeth, megis gwahanu.⁴²

Mae gan y [CRPD](#) (confensiwn ar hawliau pobl ag anableddau) weithdrefn cwyno y gall unigolion ei defnyddio, ar ôl iddynt ddefnyddio pob llwybr domestig arall, i gael uniondeb yn sgil achos o fynd yn groes i hawliau CRPD. Mae gan bwyllgor y CRPD bŵer i lansio ymchwiliad hefyd i achosion difrifol a systematig posibl o fynd yn groes i'r CRPD. Hyd yn hyn, y DU yw'r unig wlad yn y byd i fod yn destun ymchwiliad o'r fath, a hynny ar effaith rhaglen llymder y DU ar bobl anabl.

Dan CEDAW (confensiwn ar gael gwared ar bob ffurf ar wahaniaethu yn erbyn menywod), gall menywod gwyno'n uniongyrchol i'r CU os mae eu hawliau dan y cytundeb hwn wedi cael eu torri ac ni allant gael uniondeb dan gyfraith ddomestig. Yn yr un modd â gyda CRPD, mae gweithdrefn archwilio hefyd.

Fel aelod o Gyngor Ewrop (CE), ac yn barti i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i fod yn destun archwiliadau Pwyllgor Atal Artaith y CE, sy'n [archwilio canolfannau cadw y DU](#) yn rheolaidd ac yn llunio adroddiadau ac argymhellion.

Dylai cyrff cyhoeddus ystyried sylwadau cyrff cytundebau'r CU a'r Pwyllgor Atal Artaith wrth adolygu a llunio polisïau ac arferion.

Nodiadau

Mae'r nodiadau isod yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am yr egwyddorion yn y fframwaith, ac enghreifftiau o gyfraith achos sy'n helpu i'w hegluro.

¹ Mae ataliaeth yn debygol o godi dan Erthygl 8 yn ogystal ag Erthygl 3.

² Deddf Hawliau Dynol 1998 Atodlen 1.

³ Wedi'i gymryd o ddiffiniad Cod Ymddygiad y Ddeddf Iechyd Meddwl o 'ataliaeth gyfyngol'. Mae hwn yn gyson â geiriadur Saesneg Oxford sy'n diffinio ataliaeth fel 'grym neu ddylanwad cyfyngol; modd o atal unigolyn rhag gweithredu, neu o gadw unigolyn dan reolaeth'.

⁴ Mae'r gwaharddiad yn Erthygl 3 y CEHD yn erbyn artaith, neu driniaeth annynol neu ddiraddiol yn absoliwt ac nid yw'n caniatáu yr un cyfiawnhad o ran ymyrru â'r hawl honno.

⁵ Erthygl 3 y CEHD. Gweler enghraifft *Uyan v Twrci* (Cais 7496/03) yn [37].

⁶ *Kalashnikov v Rwsia* (2003) 36 AHDE 34 yn [95]: '... rhaid i gamdriniaeth feddu ar lefel isaf o ddifrifoldeb cyn cael ei chynnwys o fewn cwmpas Erthygl 3. Mae asesiad o'r lefel isaf hon yn gymharol; mae'n dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos, megis hyd y driniaeth, ei effeithiau corfforol a meddyliol ac, mewn rhai achosion, rhywedd, oedran a chyflwr meddygol y dioddefwr'; *Bouyid v Gwlad Belg* (2016) 62 AHDE 32 yn [81].

⁷ Mae Erthygl 3 yn cynnwys rhwymedigaeth gadarnhaol ar y wladwriaeth i roi 'mesurau effeithlon' ar waith i osgoi toriadau, gan gynnwys fframwaith deddfwriaethol a gweinyddol priodol (gweler er enghraifft, *R (ota Howard League for Penal Reform) v SSHD v SSfH* [2002] EWHC 2497 (Gweinyddol) yn [36], yn benodol yn [62] a [66]-[68]; *R (ota FI) v SSHD* [2014] EWCA Civ 1272 yn [36]; Mae gan Erthygl 8 rwymedigaeth gadarnhaol debyg: *Howard League ibid* yn [54]-[69], a rhaid i unrhyw ymyrraeth â'r hawl honno fod 'yn unol â'r gyfraith' (Erthygl 8(2)).

⁸ *Malone v Deyrnas Unedig* (1985) 7 AHDE 14 o [66] i [68].

⁹ Erthygl 8(2) y CEHD.

¹⁰ *A v Y Deyrnas Unedig* (1999) 27 AHDE 611 yn [24] parthed Erthygl 3 CEHD; *Öneryildiz v Twrci* (2005) 41 AHDE 20 o [91] hyd [92] parthed Erthygl 2 CEHD. Rhaid i achosion o fynd yn groes i Erthygl 3 gael eu cosbi fel trosedd: *A v Y Deyrnas Unedig* (1998) 27 AHDE 611.

¹¹ *MM v DU* (Cais 24029/07) yn [195]; *R (FI) v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2014] ADHD 30 yn [41].

¹² *Smith v Y Weinyddiaeth Amddiffyn* [2013] Goruchaf Lys y DU 41 yn [68].

¹³ Rhaid i hawliau CEHD gael eu llunio wrth ystyried cyfraith ryngwladol berthnasol: *Demir v Twrci* (2009) 48 AHDE 1272, yn benodol yn [85]-[86]. Dylai'r gyfraith gyffredin gael ei datblygu a'i llywio gan rwymedigaethau dan gyfraith ryngwladol hefyd. *A v SSHD (Rhif 2)* [2006] 2 AC 221 yn [27], a *R (K) v. Y Bwrdd Parôl* [2006] EWHC 2413 (Gweinyddol) yn [30].

-
- ¹⁴ *R (Roberts) v Comisiynydd y Metropolis* [2016] 1 ACW 210 yn [42]-[43].
- ¹⁵ Erthygl 8(2) y CEHD: rhaid i unrhyw ddefnydd o ataliaeth fod 'yn unol â'r gyfraith'.
- ¹⁶ *Huang v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2007] 2 AA 167 yn [19].
- ¹⁷ *R (Yr Arglwydd Carlile) v SSHD* [2015] AA 945 yn [19]; *Huang v SSHD* [2007] 2 AA 167 yn [19].
- ¹⁸ *Kurnaz v Twrci* (Cais rhif 36672/97) yn [56].
- ¹⁹ *De Silva v Y Deyrnas Unedig* (2016) 63 AHDE 12 yn [248].
- ²⁰ *Tali v Estonia* (Cais rhif 66393/10) yn [59].
- ²¹ *Bouyid v Gwlad Belg* (2016) 62 AHDE 32 yn [88].
- ²² *ZH (Tansaia) v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2011] Goruchaf Lys y DU 4 yn [23].
- ²³ *R (C) v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2009] Mainc y Frenhines 657 yn [58].
- ²⁴ *Ibid*, o [60] hyd [61]; CCUHP Sylw Cyffredinol 8 yn [15].
- ²⁵ Gweler *troednodyn* 6 uchod. Mae'r wladwriaeth dan ddyletswydd gadarnhaol i gymryd camau rhesymol a phriodol i sicrhau hawliau'r ymgeisydd dan erthygl 8: *Lopes-Ostra v Sbaen* (1994) 20 AHDE 277 yn [51]; *R(ota Howard League)* (ibid) o [54] hyd [69].
- ²⁶ *Y v DU* (1992) 17 AHDE 238 yn [44] – [45]; *R (FI) v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2014] ADHD 30 yn [42]; *Kemal Bas v Twrci* (Cais 38291/07) yn [30]; *Thlimmenos v Groeg* (2001) 31 AHDE 15 yn [44]; Deddf Cydraddoldeb 2010, yn benodol adrannau 20 a 149.
- ²⁷ *R (C) v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2009] Mainc y Frenhines 657 yn [58].
- ²⁸ *R (Bourgass) v SSJ* [2016] AA 384 yn [98]; *Blčić v Croatia*, cais 59532/00 yn [68].
- ²⁹ *(R (Quila) v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2012] 1 AA 621 yn [44].
- ³⁰ *R (Amin) v Yr Ysgrifennydd Gwladol* [2004] 1 AA 653 yn [31].
- ³¹ Gall defnydd gwahaniaethol awgrymu nad yw'r ataliaeth yn angenrheidiol, fel sy'n ofynnol dan Erthyglau 3 ac 8 CEHD: *A ac Eraill v SSHD, X ac Arall v SSHD* [2004] Tŷ'r Arglwyddi y DU 56 yn [231] hyd [234]. Gallai'r defnydd gwahaniaethol o ataliaeth fod yn anghyfreithlon hefyd dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010, a/neu Erthygl 14 ar y cyd ag Erthyglau 3 a/neu 8 CEHD.
- ³² Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (a.149 Deddf Cydraddoldeb 2010) yn cynnwys dyletswydd ragweithiol i ymchwilio er mwyn rhoi sylw dyledus i'r angen am gael gwared ar wahaniaethu, gwella cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da.
- ³³ *Clift v DU* CEHD 13 Gorffennaf 2010 yn [60], *McCann ac Eraill v DU* (1996) 21 AHDE yn [146].
- ³⁴ *Neulinger v Y Swistir* (2010) 28 PBHD 706 yn [131].
- ³⁵ [CERD \(1969\) \[AR-LEIN\] \(ymwelwyd 2 Gorffennaf 2018\)](#).
- ³⁶ [ICCPR \(1976\) \[AR-LEIN\] \(ymwelwyd 2 Gorffennaf 2018\)](#).

³⁷ [CEDAW \(1986\) \[AR-LEIN\] \(ymwelwyd 2 Gorffennaf 2018\).](#)

³⁸ [CAT \(1988\) \[AR-LEIN\] \(ymwelwyd 2 Gorffennaf 2018\).](#)

³⁹ [CRC \(1991\) \[AR-LEIN\] \(ymwelwyd 2 Gorffennaf 2018\).](#)

⁴⁰ [CRPD \(2009\) \[AR-LEIN\] Ymwelwyd 13 Mawrth 2019\).](#)

⁴¹ [Gweler: Cyrff Cytuniad Hawliau Dynol – Sylwadau Cyffredinol.](#)

⁴² [Gweler: cyhoeddiadau ac adnoddau Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol.](#)

Gallwch lawrlwytho'r adroddiad hwn o

www.equalityhumanrights.com

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mawrth 2019



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission